# Cyngor Cymuned Glantwymyn

**Nôs Iau, 25ain Medi 2014.**

**Presennol. Mri:-** Dafydd Evans, A. O. Griffiths, D.G.Jones, H.D.Jones, J.P.Jones, D. Lewis, S.G.Owen, W.N.Owen, G.Wigley, H.M.Williams, Mrs Gwen Lloyd, Mrs Ann Williams, Mrs Gwenfair Davies a'r Cyng. G.P.Fychan.

**Ymddiheuriadau.** Mri:- Siôn Ifans a T.J.Thomas.

**35. Cofnodion cyfarfod 31ain Gorffennaf 2014.**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**36. Materion yn codi o'r cofnodion.**
Mis Mehefin
Goryrru trwy bentref Llanwrin. Mae ymdrech wedi ei wneud i geisio arafu'r drafnidiaeth drwy'r pentref. Mae'r heddlu'n cadw llygad ar y sefyllfa.
Mis Gorffennaf.
19.17.1 Cynhelir cyfarfod yn y Plas, Machynlleth nos Fawrth 30ain Medi am 6 o'r gloch ynglyn â dyfodol gwasanaeth Potters ym Machynlleth. Enwebwyd Mr Bill Owen i gynrychioli'r Cyngor.
25.8 Mr Glenn Ward wedi tacluso mynwent Llanwrin a'r gwaith yn dderbyniol.
25.10 Nid yw'r gwaith sydd wedi ei wneud i sietyn Grey House (Abernant), Llanwrin yn dderbyniol ac yn haeddu cyfarfod safle i'w drafod ymhellach. Mae llefydd eraill hefyd angen eu dangos i'r cynrychiolydd sirol wrth ymweld â'r ardal.
33.5 Mae gwrthwynebiad cryf yn erbyn newid i'r gwasanaeth Llyfrgell yn lleol. Ni dderbyniwyd ymateb i'n llythyr.
33.10 Addewid am well derbyniad i'r band llydan yn yr ardal ar ôl Mehefin 2015.
39.2 Gwaith wedi ei wneud gan *Railtrack* yng Nghomins Coch ond ddim ar ffordd Gwastadcoed.

**37. Canlyniad yr Archwiliad Allanol.**
Mae'r archwilwyr allanol wedi dychwelyd y ffurflen ariannol 2013/14 am y tro olaf ac am gofnodi ein bod yn arddangos y **Rhybudd** mewn lle amlwg a bod y llyfrau ar gael i'r cyhoedd edrych drostynt os dymunent.

**Cynllunio.**
DEM/2014/6. Cais i ddymchwel Mount Pleasant yng Ngheinws. Cefnogi.
P/2014/0828. Gosod 200 o baneli solar ym Mrynuchel Isaf, Cwmlline. Cefnogi.

**38. Eitemau i'w talu.**
38.1. Cyflog a chostau tri mis y clerc.£750 + £42.34 = £792.34.
38.2. Costau'r Archwilydd Allanol = £ 210

**39. Ceisiadau am arian.**
Trosglwyddwyd tri chais i gronfa'r Melinau Gwynt.

**40. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**
40.1 Cafwyd adroddiad gan Hugh Jones fod ramp i'w gosod i'r anabl fynd i lwyfan y ganolfan a bydd noson cawl a chan gyda chôr y Rhos yn diddanu ar ddechrau Mawrth 2015.
40.2 Cafwyd adroddiad gan Aled Griffiths o gyfarfod llywodraethwyr yr ysgol. Yng ngwyneb y ffaith fod toriadau difrifol i'w gwneud ym myd addysg mae penderfyniadau anodd i'w gwneud ar ddyfodol yr ysgol yng Nglantwymyn, a bydd rhaid troi at y Cyngor Cymuned yn y dyfodol am gymorth ariannol.

**41. Gohebiaeth.**

41.1 Ethol Llywodraethwr ychwanegol dros y tair ysgol:- Glantwymyn, Llanbrynmair a Charno. Wedi trafodaeth, enwebwyd dau. Gadawodd y ddau'r ystafell tra cynhaliwyd pleidlais. Enw Gwenfair Davies fydd yn cael ei gyflwyno i'r ddau Gyngor arall i'w ystyried.
41.2 Cymylau Tystion. Yr arddangosfa i'w gweld yn MoMA Cymru, Machynlleth hyd 11eg Hydref.
41.3 Derbyniwyd e-bost gan Richard Baker, o Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r hyn sydd i ddigwydd i Mount Pleasant, Ceinws. Bwriad y Llywodraeth yw dymchwel y tŷ, ac maent yn awyddus i'r pentrefwyr gael llais ar ddyfodol y safle. Mae cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer nos Lun 29ain Medi ym Mhantperthog. Cytunwyd i'r Cyngor dalu am logi'r neuadd.
41.4 Cylchlythyr SARPA.
41.5 Cyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru ar 4ydd Hydref.
41.6 Cyrsiau Un Llais Cymru. Rhaglen Hyfforddiant 2014.

**42. Unrhyw fater arall.**
42.1 Y clerc yn atgoffa'r cynghorwyr am geisio ymateb i'w gais am erthyglau tuag at y we.
42.2 Sietyn rhwng Number 1 a Canol y Llan angen ei thocio. Tai'r Canolbarth yw'r perchnogion.
42.3 Arwydd 'Llwybr Cyhoeddus' wedi diflannu o'r safle o flaen capel Sama, Cwmlline.
42.4 Atgoffa'r Cyngor Sir eto am arwyddion i atgoffa perchnogion cwn i ddefnyddio'r bin pwrpasol.
42.5 Ochrau ffordd Cwm Ffrydlan heb eu torri, ac angen ysgubwr arni.
42.6 Angen bwlb a gorchudd ar lamp yng Ngheinws.
42.7 Mae hen goeden ffawydden yn tyfu ar dir Plas Wrin, Llanwrin all achosi difrod i wal y fynwent i'r Eglwys ac i rai cerrig beddi pe tai'n syrthio. Llythyr i berchennog y goeden yn tynnu sylw at bryder rhai o'r ardalwyr. Copi o'r llythyr i'r Rheithor ym Machynlleth a Phennaeth Gwasanaeth Eiddo yng Nghaerdydd.

Nid oedd mater arall

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Iau 30ain Hydref 2014.**